

# Cod Ymddygiad Tir

Gweithio gyda'n  
Tirfeddianwyr/meddianwyr a  
thimau adeiladu er mwyn sicrhau  
cyn lleied o effaith a tharfu â  
phosib yn ymwneud â'n gwaith  
seilwaith hollbwysig ar y tir.



## RHAGAIR


---

*“Rydym yn sefydliad balch sy'n gweithio'n galed i gefnogi targedau uchelgeisiol y DU ar newid yn yr hinsawdd er mwyn hwyluso economi carbon isel y dyfodol a darparu dyfodol gwell, yn gyflymach i'n cwsmeriaid a'n cymunedau. Mae'n bwysig dros ben i mi fod ein cwsmeriaid gwerthfawr, y tirlfeddianwyr a'r meddianwyr sy'n cefnogi ein seilwaith ar lawr gwlad, yn deall y rôl hollbwysig maen nhw'n ei chwarae o ran cyflawni'r amcan hwn. Dros y blynyddoedd nesaf, bydd ein busnes yn gweld galw digynsail am gysylltiadau newydd, yn ogystal â buddsoddiad sylweddol i wella ac adnewyddu'r hen seilwaith presennol. Byddwn yn gweithio'n agos iawn gyda'n rhanddeiliaid sy'n cynnal yr asedau hyn ar eu tir, er mwyn ceisio lleihau'r effaith ffisegol dros dro ar y tir yn ogystal â tharfu cyn lleied â phosib ar ddefnydd y tir tra bydd y gweithgareddau rhwydwaith hanfodol hyn yn mynd rhagddynt. Rydym yn deall yr effaith y gall y gweithgareddau hyn ei chael, ac mae fy nhîm wedi ymrwymo i wneud y gwaith hwn mewn ffordd barchus a chydlynol i weithio gyda thirfeddianwyr a chymunedau er mwyn amharu cyn lleied â phosib lle bynnag y bo modd.*

*Drwy ddilyn y Cod Ymddygiad Tir hwn, credaf yn gryf y gall ein busnes gyflawni'r heriau a amlinellir uchod yn llwyddiannus ar yr un pryd â mwynhau perthynas ardderchog gyda'n rhanddeiliaid gwerthfawr sy'n cefnogi ein seilwaith.”*



**Frank Mitchell,**  
Prif Swyddog Gweithredol,  
SP Energy Networks



## MYNEDIAD I'CH TIR

---

O bryd i'w gilydd, bydd angen i ni gael mynediad i'ch tir i osod, archwilio, cynnal a chadw, atgyweirio, adnewyddu cyfarpar neu osod cyfarpar newydd. Byddwn yn ceisio cytuno ar bob agwedd ar fynediad a phan fydd angen gwneud hyn;

- Rydym yn disgwyl i'r hawliau tir priodol fod ar waith ar gyfer ein cyfarpar. Os ydych chi'n credu efallai na fydd hyn yn wir, cysylltwch â'r tîm tir gan ddefnyddio'r cysylltiadau yn y ddogfen hon.
- Ni fyddwn yn mynd â cherbydau ar eich tir heb roi gwybod ymlaen llaw ac eithrio mewn achosion pan fydd nam neu argyfwng. Gallwn roi gwybod ar lafar neu ar bapur.
- Byddwn yn ceisio rhoi 7 niwrnod o rybudd ymlaen llaw ar gyfer gwaith adnewyddu neu waith adeiladu, ac eithrio mewn achosion pan fydd nam neu argyfwng.
- Bydd ein gweithwyr a'n contractwyr yn cario cerdyn adnabod a byddant yn ei ddangos i chi os gofynnwch iddynt.
- Bydd Cofnod o Gyflwr y tir cyn mynd arno yn cael ei gwblhau os ydy hynny'n briodol, a gallwch gael copi o'r cofnod hwnnw os gofynnwch amdano.
- Cyn i'r gwaith ddechrau, byddwn yn trafod y llwybrau mynediad sy'n cael eu ffafrio, gan gynnwys unrhyw ffiniau.
- Dim ond y nifer leiaf o gerbydau gwaith sy'n ymarferol resymol a ddefnyddir ar eich tir, a byddant yn addas ar gyfer y dasg.
- Ni fyddwn yn eich rhwystro'n ddiangen rhag gweithio ar eich tir a byddwn yn trafod gyda chi sut i leihau'r effaith ar eich tir.
- Os bydd angen i ni wella unrhyw lwybr mynediad er mwyn hwyluso ein gwaith, byddwn yn trafod hyn gyda chi ac yn talu am wneud hynny.
- Byddwn yn cadw giatiau fel y maent. Caeir y giatiau, os byddwch yn gofyn i ni wneud hynny, a'u cloi hefyd os bydd raid.
- Byddwn yn rhoi gwybod am waith archwilio ein hasedau o'r awyr naill ai'n uniongyrchol neu drwy ohebiaeth gyhoeddus. Byddwn yn ceisio osgoi hedfan yn agos at dda byw ac adeiladau ffermydd, ac eithrio mewn achosion pan fydd nam neu argyfwng.
- Byddem yn disgwyl i chi hysbysu SPEN ynghylch unrhyw faterion neu bryderon sydd gennych cyn i ni fynd ar y tir.
- Byddwn yn cadw at argymhellion arfer gorau presennol y Llywodraeth o ran bioddiogelwch. Mae'n rhaid i'r tîm trefdiannwr/meddiannwr dynnu sylw ymlaen llaw at unrhyw ofynion penodol i'r safle, yn ogystal â darparu copi o'r cynllun bioddiogelwch.





## GWAITH AR EICH TIR

---

Yn y rhan fwyaf o achosion, byddwn yn mynd ar eich tir i archwilio neu i wneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd. Fodd bynnag, efallai y bydd angen gwneud gweithgareddau mwy sylweddol weithiau megis gwaith adeiladu, adnewyddu llinellau a cheblau uwchben neu adnewyddu ynysyddion a gosodiadau. O bryd i'w gilydd, mae'n bosib y bydd angen gwneud gwaith adfer ar bolion, tyrau dur a sylfeini. Pan wneir gweithgareddau o'r fath:

- Byddwn yn sicrhau y bydd cyfarpar ar eich tir yn cael ei adeiladu a'i gynnal a chadw i'r safon sy'n ofynnol yn ôl statud ar gyfer trosglwyddydd neu ddsbarthydd trydan.
- Cyflawnir yr holl waith yn ddiogel o ran y Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch berthnasol.
- Er y byddwn yn gwneud ein gorau i leihau'r effaith ar eich busnes a gweithrediadau tir, efallai y bydd cyfyngiadau a roddir arnom gan drydydd partïon neu ffactorau amgylcheddol yn effeithio ar ein hamserlen ar gyfer y gwaith.
- Ni fyddwn yn symud waliau, ffensys neu gloddiau sy'n eiddo i chi heb drafod â chi yn gyntaf ac eithrio mewn achosion o argyfwng. Byddwn yn gosod rhwystrau dros dro cyn tynnu waliau, ffensys neu gloddiau er mwyn atal da byw rhag crwydro.
- Ni fyddwn yn dod â chŵn ar eich tir.
- Os byddwn yn dod ar draws unrhyw ffosiliau ac olion archeolegol, byddwn yn rhoi gwybod i chi ac i'r awdurdod priodol. Ni fyddwn yn hawlio perchnogaeth dros unrhyw beth a ddarganfyddwn.
- Ac eithrio mewn achosion pan fydd nam neu argyfwng, ni fydd coed yn cael eu tocio na'u torri i lawr heb drafod ymlaen llaw. Bydd coed sy'n cael eu torri i lawr yn cael eu gadael yn daclus ar eich tir, wedi'u torri'n naddion neu os yw'n rhesymol dan yr amgylchiadau, yn cael eu symud gyda chaniatâd y tirlfeddiannwr/meddiannwr neu'r cynrychiolydd a benodwyd ganddynt.
- Bydd manau gweithio yn cael eu cadw mor lân a thaclus ag sy'n ymarferol resymol. Ar ôl gorffen y gwaith, caiff deunydd dros ben a sbwriel eu symud oddi ar yr eiddo.
- Byddwn yn cydymffurfio â phob rhwymedigaeth statudol neu gyfyngiadau perthnasol sy'n gymwys i SP Energy Networks yng nghyd-destun y gwaith ar eich tir.



## DIFROD/IAWNDAL

---

Byddwn yn cynllunio ein gwaith er mwyn ceisio osgoi tarfu'n ddiangen ar eich gweithgareddau rheoli tir. Rhowch wybod i ni os ydych yn gwybod am unrhyw gynlluniau rheoli tir, ardaloedd sensitif, datblygiadau tir arfaethedig, peryglon, unrhyw gyfyngiadau neu faterion a all arwain at golled uniongyrchol o ganlyniad i'n gwaith ar eich tir.

- Byddwn yn gyfrifol am gywiro'r difrod ffisegol i'ch tir a/neu byddwn yn setlo unrhyw gais rhesymol am iawndal am golledion sy'n codi yn sgil ein gwaith.
- Byddwn yn cymryd camau rhesymol i beidio â pheri difrod i'ch tir. Os bydd difrod, o ganlyniad i'n gweithgareddau, byddwn yn cytuno ar ddatrysiaid addas drwy adfer y tir neu drwy roi iawndal priodol.
- Os oes tystiolaeth bod ein gwaith wedi difrodi draeniad y tir, a bod hwnnw heb gael ei unioni, dylid rhoi gwybod i ni cyn pen 5 mlynedd o gwblhau'r gwaith er mwyn i ni gael cyfle i'w drwsio.
- Fel arfer telir iawndal am golledion gwirioneddol a ddaeth i'ch rhan oherwydd difrod gan goed a gwmpodd mewn gwynt cryf ar eich tir o fewn 5 mlynedd i ni dorri unrhyw goed i lawr.
- Os bydd ein gweithgareddau ar eich tir yn golygu na fyddwch yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion statudol neu amodau unrhyw gynllun rheoli tir sy'n cynnig arian, byddwn yn rhoi iawndal i chi am unrhyw golled neu gosbau a gafwyd yn uniongyrchol oherwydd ein gweithredoedd, ar yr amod eich bod yn rhoi gwybod i ni ymlaen llaw os ydych yn gwybod am unrhyw ofynion statudol neu gynlluniau rheoli tir.
- Byddwn yn talu unrhyw ffioedd proffesiynol rhesymol a phriodol yn unol â'r hyn a amlinellir yn ein Graddfa Ffioedd SP Energy Networks.
- Er mwyn i ni allu asesu eich hawliad, a fyddech cystal â'i gyflwyno mewn da bryd ynghyd â'r holl dystiolaeth gysylltiedig. Fel arfer, caiff y taliad ei wneud o fewn 30 diwrnod i ddod i gytundeb rhwng y partïon.
- Os na fyddwn yn gallu cytuno am yr hawliad, penodir trydydd parti annibynnol y cytunir arno i gymrodeddu.
- Byddwn yn adrodd am bob achos lle nad yw ein Cod Ymddygiad Tir wedi cael ei gyflawni (disgwylir hefyd i dirfeddianwyr a meddianwyr roi gwybod yn uniongyrchol i'ch SPEN neu gyswllt y prosiect ynghylch y materion hyn).



## TALIADAU FFORDDFRAINT

---

Mae Undebau Cenedlaethol yr Amaethwyr yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, Undeb Amaethwyr Cymru, Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad a Scottish Land & Estates wrthi'n trafod lefelau canllaw ar gyfer taliadau Fforddfraint.

Caiff cyfraddau taliadau eu hadolygu bob blwyddyn ac maent yn seiliedig ar fath a maint strwythur a dosbarth y tir. Fel arfer, mae dwy elfen i'r cyfraddau:

- Perchennog – yn daladwy i berchennog y tir.
- Meddiannwr – yn daladwy i'r meddiannwr am darfu ar y ffordd y defnyddir y tir (ar yr amod bod y perchennogion yn cytuno).

Rhoddir cyfraddau arbennig ar gyfer mathau amrywiol o amaethu dwys a rhoddir taliadau ychwanegol am fwy nag un llinell gyfochrog. Os ydych chi'n teimlo nad yw'r taliadau fforddfraint yn eich digolledu'n ddigonol, dylech gysylltu â ni, ac fe wnawn ni werthuso'ch achos yn unigol.

Defnyddiwch y manylion cysylltu ar y daflen hon i gael manylion y taliadau rhent ac iawndal presennol dan delerau'r cytundeb fforddfraint.

I'n helpu i gadw ein cofnodion, rhowch wybod i ni os bydd unrhyw newid o ran perchnogaeth/meddiannaeth neu unrhyw newid o ran defnyddio'r tir dan sylw.



## CYSYLLTIADAU TIR A CHYNLLUNIO

### Ar gyfer yr Alban

Ffôn 0845 301 0014

E-bost [land.north@spenergynetworks.co.uk](mailto:land.north@spenergynetworks.co.uk)

Ysgrifennwch at Land & Planning  
SP Energy Networks  
55 Fullarton Drive  
Cambuslang  
Glasgow  
G32 8FA

### Ar gyfer Cymru a Lloegr

Ffôn 0845 030 3053

E-bost [land.south@spenergynetworks.co.uk](mailto:land.south@spenergynetworks.co.uk)

Ysgrifennwch at Land & Planning  
SP Energy Networks  
Wrexham Road  
Pentre Bychan  
Wrexham  
LL14 4DU



I gael rhagor o wybodaeth am God Ymddygiad Tir SP Energy Networks  
[www.spenergynetworks.co.uk/pages/land\\_right\\_consents.aspx](http://www.spenergynetworks.co.uk/pages/land_right_consents.aspx)

## CYSYLLTIADAU ARDAL

### SP Transmission & Distribution (SPT & SPD)



I gael rhagor o wybodaeth am Gysylltiadau Ardal SP Energy Networks  
[www.spenergynetworks.co.uk/pages/connections\\_contact\\_us.aspx](http://www.spenergynetworks.co.uk/pages/connections_contact_us.aspx)

### SP Manweb (SPM)



## CYFARPAR SYDD YNO'N BAROD

Dylai dargludyddion 11kv a 33kv uwchben sydd yno'n barod fod o leiaf 5.2 metr i fyny, ond efallai y bydd adegau pan fydd hyn yn llai. Os oes gennych unrhyw ymholiadau penodol ynghylch uchder gofynnol y dargludyddion neu os ydych chi'n meddwl bod y dargludyddion yn is na hyn, cysylltwch â ni ac fe wnawn ni drefnu bod hyn yn cael ei archwilio. Cofiwch fod y dargludyddion uwchben ar draws eich tir cyn defnyddio unrhyw beiriannau.

## CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL ERAILL

Fel rhan o'n hymrwymiad i chi, rydym yn sylweddoli y bydd gennym berthynas barhaus tra bydd gennym gyfarpar ar eich tir. Os oes gennych chi ymholiad ynghylch presenoldeb y cyfarpar a'i effaith ar sut y defnyddir eich tir, defnyddiwch y dolenni isod.

I gael gwybodaeth am ddiogelwch wrth ddefnyddio peiriannau neu offer wrth ymyl y llinellau pŵer, ewch i [www.spenergynetworks.com/safety](http://www.spenergynetworks.com/safety)

**POWER CUT?  
CALL 105**



Dogfennau Ychwanegol [https://www.spenergynetworks.co.uk/pages/useful\\_documents.aspx](https://www.spenergynetworks.co.uk/pages/useful_documents.aspx)

### Canol a De Yr Alban

|                         |                |
|-------------------------|----------------|
| Toriad pŵer ac argyfwng | 0800 092 9290  |
| Cysylltiadau            | 0845 270 0785  |
| Ymholiadau cyffredinol  | 0330 10 10 444 |

### Swydd Gaer, Glannau Mersi, Gogledd Cymru a Gogledd Swydd Amwythig

|                         |                |
|-------------------------|----------------|
| Toriad pŵer ac argyfwng | 0800 001 5400  |
| Cysylltiadau            | 0845 270 0783  |
| Ymholiadau cyffredinol  | 0330 10 10 444 |

Anfonwch e-bost atom [customercare@spenergynetworks.com](mailto:customercare@spenergynetworks.com)



**SP ENERGY  
NETWORKS**